BRITISH COUNCIL
Cymru

# ENGLISH LANGUAGE ASSISTANTS


## Ble gall eich sgiliau iaith fynd â chi?



Fy nghymuned leol



Sut rwyn treulio fy amser rhydd



Fy llwybr i'r gwaith



Lle dw i'n dod o hyd i ysbrydoliaeth



Rwyn addysgu Saesneg yma

www.britishcouncil.org/languageassistants

# Beth am i ni aralleirio'r cwestiwn.

## Ble'r hoffech chi fynd?

Caiff ein rhaglen Cynorthwywyr Iaith Saesneg ei chyflwyno ar bedwar cyfandir, gan leoli dros 2,500 o bobl mewn 14 gwlad. Mae rhai o'r rhain yn leoliadau egsotig, pell. Mae eraill yn agosach yn Ewrop. Mae ganddynt oll ddiwylliannau diddorol a chyfleoedd ysbrydoledig i'w cynnig. Ond mae'r ateb i'r cwestiwn ble y gall ein rhaglen fynd â chi yn ymwneud â mwy na daearyddiaeth yn unig.

Bydd y profiad yn un a fydd yn aros gyda chi am byth, gan roi'r hyder a'r sgiliau i chi fod yn unigryw a chystadlu yn y farchnad swyddi fyd-eang. Gall hyd yn oed sbarduno brwdfrydedd hirdymor am ddysgu.

### Beth yw'r manteision?

Drwy ddod yn Gynorthwy-ydd Iaith Saesneg byddwch yn gwneud y canlynol:

- Meithrin sgiliau trosglwyddadwy a fydd yn gwneud gwahaniaeth i'ch llwybr gyrfa yn y dyfodol.
- Datblygu eich annibyniaeth, gwydnwch a'ch gallu i addasu o ganlyniad i fyw a gweithio dramor.
- Gwella eich gallu ieithyddol drwy ddysgu mewn amgylchedd go iawn.
- Darganfod diwylliant newydd a thrwytho eich hun yn y gymuned leol.

### Beth mae hyn yn ei olygu?

- Helpu i addysgu Saesneg mewn ysgol neu brifysgol dramor.
- Gweithio rhwng 12 ac 20 awr yr wythnos am hyd at flwyddyn.
- Cymryd rhan mewn cwrs cychwynnol ar ôl cyrraedd a chael cyflog lleol.

### A wyf yn gymwys?

- Mae'n rhaid i chi siarad Saesneg fel iaith frodorol.
- Gallech fod yn fyfyriwr ieithoedd tramor ar eich blwyddyn dramor neu'n fyfyriwr israddedig neu raddedig o unrhyw ddisgyblaeth.
- Mae sgiliau iaith tramor yn ofynnol (Safon UG/Uwch neu gymhwyster cyfatebol) ar gyfer pob gwlad ac eithrio Tsieina.

Ceir rhagor o feini prawf cymhwyso ar ein gwefan.

## Cynorthwywyr Iaith Saesneg

language.assistants@britishcouncil.org

+44 (0)161 957 7755

Cynorthwywyr Iaith Saesneg – British Council

@Languageasst

## Ewch i'n gwefan i gael rhagor o wybodaeth a'r dyddiad cau diweddaraf ar gyfer gwneud cais.

**© British Council 2013**/D383

British Council yw sefydliad rhyngwladol y Deyrnas Unedig ar gyfer cydberthnasau diwylliannol a chyfleoedd addysgol.

**www.britishcouncil.org/languageassistants**